

Bwletin yr Haf 2020



Annwyl Riant / Warcheidwad,

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi danfon negeseuon hynod gadarnhaol am brofiadau eu plant wrth iddynt ddychwelyd yn raddol at yr ysgol. Gobeithio y bydd pawb wedi cael budd o'u profiadau ac wedi ennyn hyder wrth i ni symud at gyfnod newydd arall o ddysgu gartref ac yn yr ysgol ei hun.

Fe gofiwch imi eich hysbysu nôl yn yr hydref y byddwn yn ymddeol ddiwedd yr haf. Yn fuan wedi hynny, dysgoch fod ein Dirprwy Bennaeth ymroddedig, Dr Rhodri Thomas wedi ei benodi'n Bennaeth Ysgol Gyfun Penweddig. Prin y byddai'r un ohonom wedi gallu rhagweld y fath flwyddyn ysgol ag a brofwyd gennym i gyd ers hynny.

Mae sawl teulu wedi gorfod wynebu heriau a cholled ac mae pawb wedi wynebu cyfnod o bwysau ar hyd y misoedd diwethaf. Mae ein cydymdeimlad yn fawr â'r sawl sy wedi profi profedigaeth. Yng nghanol hyn oll mae cymuned yr ysgol wedi aros yn gadarn ac yn gefn i'n gilydd.

Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth ddi-wyro ac i'r staff oll am eu hymrwymiad a pharatoadau manwl ac i'r llywodraethwyr am eu harweiniad.

Braint fu arwain Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ar hyd y degawd diwethaf. Hoffwn ddymuno'n dda i Mr Matthew Evans a fydd yn arwain yr ysgol o Fedi ymlaen a gwn y bydd yn derbyn yr un gefnogaeth ag a gefais gennych ar hyd y blynyddoedd.

Yn olaf, diolch i chi, ddisgyblion Glantaf. Yn anffodus, nid wyf wedi gallu ffarwelio â chi i gyd yn bersonol. Fodd bynnag, dyma gyfle imi ddatgan gymaint imi fwynhau eich cwmni ac i'ch atgoffa, am y tro olaf, i drin pawb fel y dymunech gael eich trin eich hun ac i afael ymhob cyfle a gewch i siarad Cymraeg!

Yn ddiffuant

Alun G. Davies

Gwybodaeth Ychwanegol

Cyfathrebu

SIMS Parent App a SIMS Student App

Hoffwn eich hysbysu chi mai hwn fydd ein prif ffordd o ddarparu gwybodaeth i rieni a disgyblion o fis Medi ymlaen. Mi fydd gwybodaeth yn cael ei e-bostio / postio i rieni sydd ddim wedi ymuno yn barod trwy ddefnyddio'r linc. Mae'r wybodaeth yma yn esbonio sut rydych yn cofrestru ar gyfer yr app. Os ydych chi wedi defnyddio'r linc a bod dal dim mynediad gennych chi, gallwch e-bostio (dpu@glantaf.cymru) i ail osod eich cyfrif a derbyn linc newydd.

Mae'n hanfodol eich bod yn defnyddio'r linc, er mwyn gallu derbyn gwybodaeth o'r Ysgol:

Rhieni – SIMS Parent App

Disgyblion – SIMS Student App

Gellir gwyllo'r fideo canlynol am fwy o wybodaeth am y SIMS Parent App / SIMS Student App:

<https://www.capita-sims.co.uk/resources/videos/an-introduction-to-sims-parent-and-sims-student-apps>

Diwrnod Canlyniadau

Bydd diwrnod y canlyniadau yn wahanol i'r arfer eleni. Bydd myfyrwyr yn derbyn eu canlyniadau trwy e-bost yn hytrach nag ymweld â'r ysgol. Gweler y llythyr ynglŷn â diwrnod 'canlyniadau' sydd wedi cael ei rannu â myfyrwyr bl 11-13 eisoes ac a fydd yn cael ei anfon allan hefyd yn y post yr wythnos hon. Bydd angen i'r myfyrwyr anfon e-bost at Mrs Maitland gyda'u manylion er mwyn rhoi eu caniatâd i dderbyn eu canlyniadau trwy e-bost. Os na fyddant yn rhoi caniatad bydd y canlyniadau yn cael eu hanfon drwy'r post ar ôl diwrnod y canlyniadau.

Trefniadau dros y Gwyliau

Nid oes cynlluniau i gynnig gofal plant i blant gweithwyr allweddol sydd o oedran ysgol yn ystod gwyliau'r haf.

Bydd taliadau uniongyrchol ar gyfer PYDd yn parhau drwy ParentPay a thalebau archfarchnadoedd drwy gydol gwyliau'r haf.

Y Pythefnos Cyntaf yn ôl

Yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth, bydd pob disgybl yn dychwelyd i'r ysgol erbyn Medi 14. Yn ystod y pythefnos cyntaf ym mis Medi, byddwn yn adeiladu at hyn ac atodir y Cynllun Dychwelyd ar ddiwedd y ddogfen hon. Cewch fwy o fanylion ym mis Medi ynglyn ag amserlenni ac yn y blaen.

Cymorth Lles ac Emosiynol

Bydd gwasanaeth cwnsela i ddisgyblion yn dod i ben ar ddydd Gwener 17eg o Orffennaf. Mae'r disgyblion wedi derbyn rhestr o linellau cymorth i'w defnyddio drwy'r cyfnod gwyliau.

Hoffem eich cyfeirio hefyd at wefan Young Minds (www.youngminds.org.uk) lle mae ystod eang o gymorth ar gyfer pobl ifanc, Kooth - llwyfan cwnsela a lles emosiynol ar-lein am ddim i blant a phobl ifanc www.kooth.com a MEIC - cymorth dwyieithog ar-lein/ffôn/testun i bobl ifanc Ffôn: 080 8802 3456 Testun: 84001 www.meiccymru.org

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod adnoddau ychwanegol ar gael a fydd yn cefnogi pobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys canolbwytio ar iechyd a lles meddyliol ac emosiynol dysgwyr a darparu cefnogaeth llesiant yn yr amgylchedd newydd. Lanswyd y cyntaf o'r adnoddau hyn ar 1 Mehefin ac mae'n [becyn cymorth iechyd meddwl person ifanc](#) sy'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau ar-lein a all eu helpu trwy'r cyfnod clo a thu hwnt. Mae'n cynnwys gwybodaeth am wefannau, apiau, llinellau cymorth, a mwy sy'n cefnogi iechyd meddwl a lles.

Cofiwch fod cyfrif Lles yr ysgol ar Twitter [@LlesYsgolGlant1](https://twitter.com/LlesYsgolGlant1) yn cynnig gwybodaeth am faterion lles ac iechyd meddwl gyda dolenni i wefannau gan fudiadau, elusennau ac asiantaethau allanol.

Prydau Ysgol am Ddim

Bydd talebau yn cael eu talu drwy'r haf hyd at Fedi 14eg. Os oes gennych gwestiwn am y trefniant hwn neu y byddwch angen gwneud cais yn ystod yr wythnosau nesaf cysylltwch â prydauysgolamddim@cardiff.gov.uk

Gwisg Ysgol

Byddwn yn dychwelyd at ein polisi gwisg ysgol ym mis Medi. Mae gwisg ysgol yn chwarae rôl hanfodol wrth gyfrannu at ethos ysgol ac wrth osod trefn a sefydlogrwydd i ddiwrnod ysgol. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y bydd rhai teuluoedd angen cymorth ychwanegol wrth brynu cymaint o eitemau newydd o wisg ac offer ysgol. Mae [Grant Datblygu Disgyblion](#) ar gael i helpu teuluoedd y disgyblion sydd yn dechrau ym mlwyddyn 7 sydd ar incwm isel i brynu gwisg ysgol, cit chwaraeon, gwisg ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi, bagiau ysgol, deunydd ysgrifennu ac ati. Nid oes hawl defnyddio'r grant hwn ar gyfer TG. Gellir cael mwy o wybodaeth ar wefan Cyngor Caerdydd neu drwy ffonio [029 2053 7250](tel:02920537250)

Gofynnwn yn garedig i unrhyw rieni/gwarcheidwaid sy'n fodlon gwirfoddoli i drefnu 'siop ar-lein' e.e drwy Facebook i werthu neu roi gwisg ysgol ail-law nad ydynt eu hangen bellach i gysylltu gyda Beca Newis ar bn@glantaf.cardiff.sch.uk

Presenoldeb

Bydd pob dysgwr yn dychwelyd i'r ysgol yn nhymor yr hydref oni bai bod ganddo/i reswm meddygol i beidio. Bydd hyn yn cynnwys dysgwyr sy'n dal i gysgodi, os mai'r cyngor ar y pryd yw y dylent fynychu'r ysgol. Dylai'r dysgwyr hynny sydd wedi cael gwybod nad oes angen iddynt aros gartref mwyach, neu y mae eu rhieni / gofalwyr wedi dewis anfon eu plentyn i'r ysgol gael eu cefnogi i ddod heb gyfyngiad. Mae'r ysgol yn cefnogi barn Llywodraeth Cymru i beidio cychwyn achos dros ddiffyg presenoldeb ond byddwn yn monitro'r sefyllfa dros yr hanner tymor cyntaf.

Byddwn yn cadw cofnod o bresenoldeb a dylai teuluoedd ein hysbysu os nad yw eu plentyn yn gallu mynychu ac esbonio'r rheswm am hyn. Bydd hyn yn ein helpu i gynllunio ar gyfer dysgwyr sydd heb ddychwelyd i'r ysgol, a deall unrhyw rwystrau iddynt, a nodi unrhyw gefnogaeth bellach sydd ei hangen.

Trafnidiaeth

Nid oes gennym y manylion llawn ynghylch y canllawiau ar gyfer trafndiaeth yn ôl ac ymlaen i'r ysgol. Byddwn yn hysbysu rhieni pan fydd y wybodaeth ar gael inni.

Gweler y wefan hon i ymweld â'r canllawiau cyffredinol gan Kirsty Williams.

<https://llyw.cymru/canllawiau-newydd-i-gefnogi-dychwelyd-ir-ysgol-ym-mis-medi>

	Bl. 13	Bl. 12	Bl. 11	Bl. 10	Bl. 9	Bl. 8	Bl. 7
Mawrth 01/09/20	Diwrnod HMS i'r staff cyfan.						
Mercher 02/09/20	Diwrnod Paratoi						
Iau 03/09/20		Bl. 12 (Anwytho)					Bl. 7 (Pontio)
Gwener 04/09/20	Bl. 13	Bl. 12	Bl. 11				Bl. 7
Llun 07/09/20	Bl. 13	Bl. 12	Bl. 11	Bl. 10			Bl. 7
Mawrth 08/09/20	Bl. 13	Bl. 12	Bl. 11	Bl. 10	Bl. 9		Bl. 7
Mercher 09/09/20	Bl. 13	Bl. 12	Bl. 11	Bl. 10	Bl. 9	Bl. 8	Bl. 7
Iau, 10/09/20	Bl. 13	Bl. 12	Bl. 11	Bl. 10	Bl. 9	Bl. 8	Bl. 7
Gwener 11/09/20	Bl. 13	Bl. 12	Bl. 11	Bl. 10	Bl. 9	Bl. 8	Bl. 7

Summer Bulletin 2020



Dear Parent/ Guardian,

Firstly may I thank all who have contacted the school regarding their children's positive experience as they gradually return to school. We hope that all who have attended will have benefited from a return to the classroom and gained confidence as we move into another new phase of combined home learning and experience at school .

You may recall that I informed you back in the autumn that I will be retiring at the end of this term. Shortly afterwards, you learned that our gifted and dedicated Deputy Headteacher, Dr Rhodri Thomas had been appointed as Headteacher of Ysgol Gyfun Penweddig. I think it is no understatement to say that none of us could have predicted the kind of school year we have all experienced since then.

Many families have had to face challenge and loss over the last few months and all have experienced unprecedented pressures. I would like to extend our sincere condolences to the bereaved and gratitude to the school community for remaining strong and supportive.

I would also wish to recognise the unwavering support and commitment of all school staff and the Governing Body throughout this period and my time at Glantaf.

It has been a privilege to lead Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf for the past decade. I wish Mr Matthew Evans , who will be leading the school from September onwards, every success and I know that he will benefit from the same support that I have received over the years.

Finally, a big thank you to you, the pupils. Unfortunately, I have not been able to say goodbye to you all personally. However, this is an opportunity for me to state how much I have enjoyed your company and to remind you, for one last time, to treat everyone as you yourself would wish to be treated and to grasp every opportunity you have to speak Welsh!

Yours sincerely

Alun G.Davies

Additional Information

Communication

SIMS Parent App a SIMS Student App

I would like to notify you, that this will be our main way of distributing information to parents and pupils from September onwards. Information will be e-mailed / posted to parents who have not already registered by using the link. This information will explain how to register for the app. If you have previously used a link and are experiencing problems, you can e-mail (dpu@glantaf.cymru) to re-activate the account and produce a new link.

It is important that you use the link to register, so that you are able to receive information from the school.

Parents - SIMS Parent App

Pupils - SIMS Student App

You can watch the following video for more information regarding SIMS Parent App / SIMS Student App:

<https://www.capita-sims.co.uk/resources/videos/an-introduction-to-sims-parent-and-sims-student-apps>

Results' Day

Results day this year will differ from previous years in that students will receive their results through email rather than visiting the school. Please see the letter regarding results' day, which will be sent out in the post this week. You will need to email Mrs Maitland with details giving your permission to receive your results through email.

Arrangements during the Summer Holidays

There are no plans to offer childcare for school aged children of keyworkers through the summer holiday.

The direct payment of FSM via ParentPay and supermarket vouchers will continue throughout the summer holidays.

The First Fortnight in September

In accordance with the Government's guidance, every learner will return to school by the 14th of September. During the first fortnight in September, we will build up to this and we attach the Plan for Return at the end of this document. You will receive more information in September in relation to timetables etc.

Well-being and Emotional Support

School-based Counselling service will finish on Friday 17th of July. All pupils have received, through their Google Classrooms a comprehensive list of support and helplines. If you believe your child requires support we would recommend Young Minds website as a starting point (www.youngminds.org.uk), it has a wealth of guidance, [Kooth](http://www.kooth.com) is an excellent free counselling and well-being service for children and young people www.kooth.com and [MEIC](http://www.meiccymru.org) a bilingual online or telephone or text service - 080 8802 3456 Textun: 84001 www.meiccymru.org

The Welsh Government have made additional resources available, which will support young people. This includes a focus on learners' mental and emotional health and well-being and providing well-being support in the new environment. The first of these resources was launched on 1 June and is a [Young person's mental health toolkit](#), comprising a variety of online resources which can help them through lockdown and beyond. It contains information on websites, apps, helplines, and more which support mental health and well-being.

Remember that the school's Wellbeing account on Twitter [@LlesYsgolGlant1](#) provides information on wellbeing and mental health issues with links to websites from organizations, charities and outside agencies.

Free School Meals

All families in receipt of the vouchers will continue to receive these throughout the summer until September 14th. Should you have any questions or a need to apply for these during the summer contact freeschoolmeals@cardiff.gov.uk

School uniform

We will return to our usual uniform policies in the autumn term. Uniform can play a valuable role in contributing to the ethos of a school and setting an appropriate tone. However, we are aware that some families may struggle to purchase specific or additional items of clothing. [The Pupil Development Grant \(PDG\)](#) is available for eligible families of year 7 pupils to buy school uniform, sports kit, uniform for enrichment activities, school bags, stationery etc. Please note IT equipment is excluded from this grant. More information is on the Cardiff Council website or by telephone on [029 2053 7250](tel:02920537250)

We would be very grateful for volunteers to set up an 'online shop', maybe through Facebook, to co-ordinate selling or donating items of second-hand school uniform for any families who would benefit from this. Please contact Beca Newis at bn@glantaf.cardiff.sch.uk if you can help with this venture.

Attendance

We hope that all our learners will return to school in the autumn term unless they have a medical/health reason not to. This will include learners who are still shielding, if the advice at the time is that they should attend school. Those learners who have been advised that they no longer have the need to shield, or whose parents/carers have chosen to send their child to school should be supported to attend without restriction, but encourage social distancing and regular hand washing. The school supports the Welsh Government's view in that it would be difficult to justify commencing proceedings for non-school attendance. The school will monitor the situation over the first half term.

We will keep a record of attendance and families should notify us if your child is unable to attend and explain the reason for this to enable the school to record attendance correctly. This will help us plan for, and understand any barriers to, learners returning to school and identify any further support needed.

Transport

We still don't have the full details regarding the guidance for transport to and from school. We will notify parents when the information is available to us.

Please see this website for the general guidance from Kirsty Williams.

<https://gov.wales/new-guidance-support-september-schools-return>

	Yr 13	Yr 12	Yr 11	Yr 10	Yr 9	Yr 8	Yr 7
Tuesday 01/09/20	INSET Day						
Wednesday 02/09/20	A day for preparation						
Thursday 03/09/20		Yr 12 (Induction)					Yr 7 (Transition)
Friday 04/09/20	Yr 13	Yr 12	Yr 11				Yr 7
Monday 07/09/20	Yr 13	Yr 12	Yr 11	Yr 10			Yr 7
Tuesday 08/09/20	Yr 13	Yr 12	Yr 11	Yr 10	Yr 9		Yr 7
Wednesday 09/09/20	Yr 13	Yr 12	Yr 11	Yr 10	Yr 9	Yr 8	Yr 7
Thursday 10/09/20	Yr 13	Yr 12	Yr 11	Yr 10	Yr 9	Yr 8	Yr 7
Friday 11/09/20	Yr 13	Yr 12	Yr 11	Yr 10	Yr 9	Yr 8	Yr 7